

202- Rhif (Cy.)

202- No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487
a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro)
(Gwahardd Aros, Llwytho a
Dadlwytho) 202-

The A487 and A40 Trunk Roads
(Fishguard, Pembrokeshire)
(Prohibition of Waiting, Loading
and Unloading) Order 202-

Gwnaed ***** 202-

Made ***** 202-

Yn dod i rym ***** 202-

Coming into force ***** 202-

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffyrdd yr A487 a'r A40, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ar ôl rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A487 and A40 Trunk Roads, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2), and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to the Road Traffic Regulation Act 1984(1), after giving public notice of their intention to do so and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed-Powys Police, make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A487 a'r A40 (Abergwaun, Sir Benfro) (Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho) 202- a daw i rym ar *****202-.

1. The title of this Order is the A487 and A40 Trunk Roads (Fishguard, Pembrokeshire) (Prohibition of Waiting, Loading and Unloading) Order 202- and it comes into force on *****202-.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cefnffordd yr A40” (“*the A40 trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

“the A487 link road” (“*ffordd gyswllt yr A487*”) means the A487 (High Street A40 to West Street A487) Link Road, Fishguard;

ystyr “cefnffordd yr A487” (“*the A487 trunk road*”) yw cefnffordd yr A487 Abergwaun i Fangor; ac

“the A487 trunk road” (“*cefnffordd yr A487*”) means the A487 Fishguard to Bangor trunk road; and

ystyr “ffordd gyswllt yr A487” (“*the A487 link road*”) yw ffordd gyswllt yr A487 (Heol Fawr A40 i'r Wesh A487), Abergwaun.

“the A40 trunk road” (“*cefnffordd yr A40*”) means the A40 London to Fishguard trunk road.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c.25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Gwahardd aros ar unrhyw adeg

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5(1), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

Gwahardd llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 5(2), ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd llwytho neu ddadlwytho ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar unrhyw adeg.

Esemptiadau

5. (1) Caiff unrhyw berson beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) nwyddau i gael eu llwytho ar gerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(2);

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(d) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

Prohibition of waiting at any time

3. Except as provided in article 5(1), no person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order at any time.

Prohibition of loading and unloading at any time

4. Except as provided in article 5(2), no person may cause or permit any vehicle to load or unload on the sides of the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order at any time.

Exemptions

5. (1) A person may cause or permit any vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk roads specified in Schedule 1 to this Order for so long as may be necessary to enable—

(a) goods to be loaded on or unloaded from a vehicle;

(b) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the lengths of the trunk road; or

(iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(2);

(c) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(d) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the lengths of the trunk road;

(2) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(2) 2003 c.21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c.30).

(e) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(f) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
- (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
- (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
- (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd aros ar ochrau'r darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

- (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
- (ii) symud unrhyw rwystr i draffig;
- (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu
- (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(d) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(e) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(f) the vehicle to stop when the person in control of it:

- (i) is required by law to stop;
- (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
- (iii) is prevented from proceeding; or
- (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

(2) A person may cause or permit a vehicle to wait on the sides of the lengths of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order for so long as may be necessary to enable—

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:

- (i) building, industrial or demolition operations;
- (ii) the removal of any obstruction to traffic;
- (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of the trunk road; or
- (iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the said lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003;

(c) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(d) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the lengths of the trunk road;

(e) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(e) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(f) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
- (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
- (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
- (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Dirymiadau

6. Mae Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Abergwaun) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1965(3), Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Abergwaun) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) (Diwygio) 1967(4) a Gorchymyn Cefnffordd (Heol Fawr, Abergwaun) (Cyfyngu ar Aros) 1968(5) wedi eu dirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig ***** 202-

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(f) the vehicle to stop when the person in control of it:

- (i) is required by law to stop;
- (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
- (iii) is prevented from proceeding; or
- (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

Revocations

6. The Trunk Road (Various Streets, Fishguard) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 1965(3), the Trunk Road (Various Streets, Fishguard) (Prohibition and Restriction of Waiting) (Amendment) Order 1967(4) and the Trunk Road (High Street, Fishguard) (Restriction of Waiting) Order 1968(5) are revoked.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated ***** 202-

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

(3) O.S. 1965/1779.

(4) O.S. 1967/1359.

(5) O.S. 1968/253.

(3) S.I. 1965/1779.

(4) S.I. 1967/1359.

(5) S.I. 1968/253.

ATODLEN 1
Gwahardd aros ar unrhyw adeg

1. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 72 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd.
2. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 106 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 125 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adneuwyd.
3. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 26 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh a chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm hyd at bwynt 41 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.
4. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh a chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm hyd at bwynt 129 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod D iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2
Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

1. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm ac y rhoddir y cyfeirnod 1 iddo ar y plan a adneuwyd.
2. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 13 iddo ar y plan a adneuwyd.
3. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 3 iddo ar y plan a adneuwyd.
4. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487

SCHEDULE 1
Prohibition of waiting at any time

1. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 50 metres south-east of its junction with the A487 link road to a point 72 metres south-east of that junction and given the reference A on the deposited plan.
2. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 106 metres south-east of its junction with the A487 link road to a point 125 metres south-east of that junction and given the reference B on the deposited plan.
3. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from a point 26 metres south-west of its junction with the A487 trunk road known as West Street and A487 trunk road known as Main Street to a point 41 metres south-west of that junction and given the reference C on the deposited plan.
4. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from a point 103 metres south-west of its junction with the A487 trunk road known as West Street and A487 trunk road known as Main Street to a point 129 metres south-west of that junction and given the reference D on the deposited plan.

SCHEDULE 2
Prohibition of waiting, loading and unloading at any time

1. The length of the north-eastern side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 10 metres north-west of its junction with the A487 link road to its junction with the A487 trunk road known as Main Street and given the reference 1 on the deposited plan.
2. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from its junction with the A487 link road to a point 10 metres north-west of that junction and given the reference 13 on the deposited plan.
3. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from its junction with the A487 link road to a point 50 metres south-east of that junction and given the reference 3 on the deposited plan.
4. The length of the south-western side of the A487

o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 72 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 4 iddo ar y plan a adneuwyd.

5. Y darn o ochr orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 125 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr ac y rhoddir y cyfeirnod 11 iddo ar y plan a adneuwyd.

6. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh hyd at bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 2 iddo ar y plan a adneuwyd.

7. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr hyd at bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 8 iddo ar y plan a adneuwyd.

8. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr hyd at bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 9 iddo ar y plan a adneuwyd.

9. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 ac y rhoddir y cyfeirnod 10 iddo ar y plan a adneuwyd.

10. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh hyd at bwynt 26 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 5 iddo ar y plan a adneuwyd.

11. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 6 iddo ar y plan a adneuwyd.

12. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 129 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr

trunk road known as West Street that extends from a point 72 metres south-east of its junction with the A487 link road to a point 106 metres south-east of that junction and given the reference 4 on the deposited plan.

5. The length of the western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 125 metres south-east of its junction with the A487 link road to its junction with the A40 trunk road known as High Street and given the reference 11 on the deposited plan.

6. The length of the north-western side of the A487 trunk road known as Main Street that extends from its junction with the A487 trunk road known as West Street to a point 28 metres north-east of that junction and given the reference 2 on the deposited plan.

7. The length of the south-eastern side of the A487 trunk road known as Main Street that extends from its junction with the A40 trunk road known as High Street to a point 14 metres north-east of that junction and given the reference 8 on the deposited plan.

8. The length of the south-eastern side of the A487 trunk road known as Main Street that extends from a point 27 metres north-east of its junction with the A40 trunk road known as High Street to a point 28 metres north-east of that junction and given the reference 9 on the deposited plan.

9. The length of the south-eastern side of the A40 trunk road known as High Street that extends from its junction with the A487 trunk road known as Main Street to a point 20 metres south-west of its junction with the A487 link road and given the reference 10 on the deposited plan.

10. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from its junction with the A487 trunk road known as West Street to a point 26 metres south-west of that junction and given the reference 5 on the deposited plan.

11. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from a point 41 metres southwest of its junction with the A487 trunk road known as West Street to a point 103 metres southwest of that junction and given the reference 6 on the deposited plan.

12. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from a point 129 metres southwest of its junction with the A487 trunk road known as West Street to its junction with the A487 link road and given the reference 7 on the deposited plan.

A487 o'r enw y Wesh hyd at ei chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 ac y rhoddir y cyfeirnod 7 iddo ar y plan a adneuwyd.

13. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 12 iddo ar y plan a adneuwyd.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A487 A'R
A40 (ABERGWAUN, SIR BENFRO)
(GWAHARDD AROS, LLWYTHO A
DADLWYTHO) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar y darnau o gefnffyrdd yr A487 a'r A40 yn Abergwaun yn Sir Benfro, fel y'u pennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Ar hyn o bryd, gwaherddir aros, llwytho a dadlwytho ar rai darnau o'r cefnffyrdd o dan sylw yn rhinwedd Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Abergwaun) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1965, Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Abergwaun) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) (Diwygio) 1967 a Gorchymyn Cefnffordd (Heol Fawr, Abergwaun) (Cyfyngu ar Aros) 1968 a chânt eu dirymu a'u haildeddfu gan y Gorchymyn arfaethedig.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 27 Tachwedd 2019 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â Phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Abergwaun, Neuadd y Dref, Sgwâr y Farchnad, Abergwaun SA65 9HE neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1370702.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 18 Rhagfyr 2019, a hynny drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1370702. **Sylwer:** Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni

13. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from its junction with the A487 link road to a point 20 metres south-west of that junction and given the reference 12 on the deposited plan.

**THE A487 AND A40 TRUNK ROADS
(FISHGUARD, PEMBROKESHIRE)
(PROHIBITION OF WAITING, LOADING AND
UNLOADING) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to prohibit waiting, loading and unloading on the lengths of the A487 and A40 trunk roads at Fishguard in the County of Pembrokeshire, as specified in the Schedules to this Notice.

Waiting, loading and unloading is currently prohibited on some lengths of the trunk roads concerned by virtue of the Trunk Road (Various Streets, Fishguard) (Prohibition And Restriction Of Waiting) Order 1965, the Trunk Road (Various Streets, Fishguard) (Prohibition And Restriction Of Waiting) (Amendment) Order 1967 and the Trunk Road (High Street, Fishguard) (Restriction Of Waiting) Order 1968 which will be revoked and re-enacted by the proposed Order.

During a period of 21 days from 27 November 2019, a copy of the proposed Order, together with a Plan and a Statement of Reasons for making the Order, may be inspected during normal opening hours at Fishguard Library, Town Hall, Market Square, Fishguard SA65 9HE or may be obtained free of charge from the address below quoting the reference number qA1370702.

Objections, specifying the grounds on which they are made and quoting reference number qA1370702, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 18 December 2019. **Please note:** Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will

fyddwn, fodd bynnag, yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ein galluogi i ymdrin â'r materion yr ydych wedi eu dwyn i'n sylw. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol penodol gael ei anfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-cau>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 **Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

1. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 72 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod A iddo ar y plan a adneuwyd.
2. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 106 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 125 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod B iddo ar y plan a adneuwyd.
3. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 26 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh a chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm hyd at bwynt 41 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod C iddo ar y plan a adneuwyd.
4. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr

however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. If you do not wish for certain personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1 **Prohibition of waiting at any time**

1. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 50 metres south-east of its junction with the A487 link road to a point 72 metres south-east of that junction and given the reference A on the deposited plan.
2. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 106 metres south-east of its junction with the A487 link road to a point 125 metres south-east of that junction and given the reference B on the deposited plan.
3. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from a point 26 metres south-west of its junction with the A487 trunk road known as West Street and A487 trunk road known as Main Street to a point 41 metres south-west of that junction and given the reference C on the deposited plan.
4. The length of the north-western side of the A40

A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh a chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm hyd at bwynt 129 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod D iddo ar y plan a adneuwyd.

ATODLEN 2

Gwahardd aros, llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg

1. Y darn o ochr ogledd-ddwyreiniol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm ac y rhoddir y cyfeirnod 1 iddo ar y plan a adneuwyd.
2. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 10 metr i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 13 iddo ar y plan a adneuwyd.
3. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 50 metr i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 3 iddo ar y plan a adneuwyd.
4. Y darn o ochr dde-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 72 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 4 iddo ar y plan a adneuwyd.
5. Y darn o ochr orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh sy'n ymestyn o bwynt 125 o fetrau i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at ei chyffordd â chefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr ac y rhoddir y cyfeirnod 11 iddo ar y plan a adneuwyd.
6. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh hyd at bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 2 iddo ar y plan a adneuwyd.
7. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr hyd at bwynt 14 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 8 iddo ar y plan a adneuwyd.

trunk road known as High Street that extends from a point 103 metres south-west of its junction with the A487 trunk road known as West Street and A487 trunk road known as Main Street to a point 129 metres south-west of that junction and given the reference D on the deposited plan.

SCHEDULE 2

Prohibition of waiting, loading and unloading at any time

1. The length of the north-eastern side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 10 metres north-west of its junction with the A487 link road to its junction with the A487 trunk road known as Main Street and given the reference 1 on the deposited plan.
2. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from its junction with the A487 link road to a point 10 metres north-west of that junction and given the reference 13 on the deposited plan.
3. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from its junction with the A487 link road to a point 50 metres south-east of that junction and given the reference 3 on the deposited plan.
4. The length of the south-western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 72 metres south-east of its junction with the A487 link road to a point 106 metres south-east of that junction and given the reference 4 on the deposited plan.
5. The length of the western side of the A487 trunk road known as West Street that extends from a point 125 metres south-east of its junction with the A487 link road to its junction with the A40 trunk road known as High Street and given the reference 11 on the deposited plan.
6. The length of the north-western side of the A487 trunk road known as Main Street that extends from its junction with the A487 trunk road known as West Street to a point 28 metres north-east of that junction and given the reference 2 on the deposited plan.
7. The length of the south-eastern side of the A487 trunk road known as Main Street that extends from its junction with the A40 trunk road known as High Street to a point 14 metres north-east of that junction and given the reference 8 on the deposited plan.
8. The length of the south-eastern side of the A487

8. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â chefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr hyd at bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 9 iddo ar y plan a adneuwyd.

9. Y darn o ochr dde-ddwyreiniol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw Ffordd y Cwm hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 ac y rhoddir y cyfeirnod 10 iddo ar y plan a adneuwyd.

10. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh hyd at bwynt 26 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 5 iddo ar y plan a adneuwyd.

11. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 41 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 6 iddo ar y plan a adneuwyd.

12. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o bwynt 129 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd â chefnffordd yr A487 o'r enw y Wesh hyd at ei chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 ac y rhoddir y cyfeirnod 7 iddo ar y plan a adneuwyd.

13. Y darn o ochr ogledd-orllewinol cefnffordd yr A40 o'r enw Heol Fawr sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd gyswllt yr A487 hyd at bwynt 20 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd honno ac y rhoddir y cyfeirnod 12 iddo ar y plan a adneuwyd.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A487 A'R
A40 (ABERGWAUN, SIR BENFRO)
(GWAHARDD AROS, LLWYTHO A
DADLWYTHO) 202-**

DATGANIAD O'R RHESYMAU

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig yn dilyn cyflwyno Cynllun Ffordd Gyswllt Chimneys Canol Tref Abergwaun yr A40/A487 i gyflwyno system gylchu unffordd yng Nghanol Tref Abergwaun. Ar hyn o bryd, mae tri darn cul o gefnffordd ar yr A40 Heol Fawr, yr A487 Ffordd y Cwm a'r A487 y Wesh yn cydgyfarfod wrth gylchfan fach ar y sgwâr yng nghanol y dref, gan greu tagfa sy'n effeithio ar hygyrchedd, traffig, trafnidiaeth gyhoeddus a

trunk road known as Main Street that extends from a point 27 metres north-east of its junction with the A40 trunk road known as High Street to a point 28 metres north-east of that junction and given the reference 9 on the deposited plan.

9. The length of the south-eastern side of the A40 trunk road known as High Street that extends from its junction with the A487 trunk road known as Main Street to a point 20 metres south-west of its junction with the A487 link road and given the reference 10 on the deposited plan.

10. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from its junction with the A487 trunk road known as West Street to a point 26 metres south-west of that junction and given the reference 5 on the deposited plan.

11. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from a point 41 metres south-west of its junction with the A487 trunk road known as West Street to a point 103 metres south-west of that junction and given the reference 6 on the deposited plan.

12. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from a point 129 metres south-west of its junction with the A487 trunk road known as West Street to its junction with the A487 link road and given the reference 7 on the deposited plan.

13. The length of the north-western side of the A40 trunk road known as High Street that extends from its junction with the A487 link road to a point 20 metres south-west of that junction and given the reference 12 on the deposited plan.

**THE A487 AND A40 TRUNK ROADS
(FISHGUARD, PEMBROKESHIRE)
(PROHIBITION OF WAITING, LOADING AND
UNLOADING) ORDER 202-**

STATEMENT OF REASONS

The proposed Order is required following the introduction of the proposed Chimneys Link Scheme to introduce a one way gyratory system within Fishguard Town Centre. Currently, three narrow sections of trunk road on the A40 High Street, A487 Main Street and A487 West Street converge on a small roundabout at the square within the Town Centre, forming a bottle neck which affects accessibility, traffic, public transport and road safety.

diogelwch ar y ffyrdd.

Bydd y cynllun hwn yn lleddfu'r materion hyn y gwyddys amdanynt drwy ddefnyddio'r ffordd gyswllt a adeiladwyd yn ddiweddar rhwng Heol Fawr a'r Wesh a fydd yn galluogi creu'r system gylchu unffordd yng nghanol y dref. Bydd y system unffordd yn golygu y gellir culhau'r gerbyttffordd ar gyfer traffig unffordd a lledu'r troetffyrdd er mwyn gwella'r cydbwysedd rhwng cerbydau a cherddwyr, a thrwy hynny wella diogelwch. O ganlyniad, bydd presenoldeb cerbydau sydd wedi eu parcio ar hyd y darn o'r gerbyttffordd yn debygol o atal traffig rhag llifo'n rhydd yn ogystal â rhwystro cerddwyr ar y droetffordd.

Bydd y gwaharddiad arfaethedig yn lliniaru'r risg na fydd modd i gerbydau basio'n rhwydd drwy'r system unffordd drwy wahardd traffig rhag aros ar y darnau arfaethedig a hefyd lliniaru'r risg o gerddwyr yn cael eu rhwystro gan gerbydau sydd wedi eu parcio ar y droetffordd.

Bydd y cynnig hefyd yn lleihau unrhyw effaith y bydd y gwaharddiad ar aros yn ei chael ar gyflenwi busnesau lleol oherwydd bwriedir adeiladu pedwar lle penodol ar gyfer llwytho a dadlwytho mewn lleoliadau strategol o fewn y system gylchu. Er mwyn sicrhau y bydd y manau hyn yn cael eu defnyddio'n briodol, bydd y Gorchymyn arfaethedig yn gosod cyfyngiadau llwytho a dadlwytho yn unig ar y manau llwytho hyn.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn dirymu Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Abergwaun) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 1965, Gorchymyn Cefnffordd (Amryw o Strydoedd, Abergwaun) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) (Diwygio) 1967 a Gorchymyn Cefnffordd (Heol Fawr, Abergwaun) (Cyfyngu ar Aros) 1968.

This scheme will alleviate these known issues by utilising the recently constructed link road between High Street and West Street which will allow the one-way gyratory to be formed within the Town Centre. The one-way system will enable the narrowing of the carriageway for one way traffic and widening of the footways to provide a better balance between vehicles and pedestrians, thus improving safety. As such, the presence of parked vehicles along the length of carriageway will likely prevent free flow traffic as well as impeding pedestrians on the footway.

The proposed prohibition will mitigate the risk of vehicles being unable to pass freely through the one-way system by prohibiting waiting over the proposed lengths and also mitigate the risk of pedestrians being impeded by parked vehicles over the footway.

The proposal will also minimise any impact the waiting prohibition will have on deliveries for local businesses as four loading and unloading bays are proposed at strategic locations within the gyratory. To ensure these spaces are utilised correctly, this Order proposes that loading and unloading only restrictions be placed on these loading bays.

The proposed Order will revoke 'the Trunk Road (Various Streets, Fishguard) (Prohibition and Restriction of Waiting) Order 1965, the Trunk Road (Various Streets, Fishguard) (Prohibition and Restriction of Waiting) (Amendment) Order 1967 and the Trunk Road (High Street, Fishguard) (Restriction of Waiting) Order 1968'.